# Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010

**2010 mccc 2**

**1 Pŵer cyffredinol i godi ffioedd am wasanaethau gofal**

(1) Caiff awdurdod lleol yng Nghymru sy'n darparu, neu'n gwneud trefniadau ar gyfer darparu, gwasanaeth y caniateir codi ffioedd amdano osod ffi resymol am y gwasanaeth (ond nid oes raid iddo wneud hynny).

(2) Ffi resymol yw'r swm hwnnw y mae'r awdurdod o dan sylw yn penderfynu ei fod yn rhesymol.

(3) Ond mae is-adrannau (1) a (2) yn ddarostyngedig i'r canlynol—

(a) adran 2 (uchafswm y ffioedd);

(b) adran 3 (personau a gwasanaethau y mae'n rhaid peidio â gosod ffioedd ynglŷn â hwy);

(c) adran 8(1) (effaith penderfyniadau sy'n ymwneud â gallu i dalu); a

(d) unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 16 o Ddeddf Gofal Cymunedol (Rhyddhau Gohiriedig etc) 2003 (p. 5) (darparu gwasanaethau yng Nghymru yn ddi-dâl).

(4) Mae gan awdurdod lleol y pŵer i adennill ffi a osodir o dan yr adran hon.

(5) Heb ragfarnu is-adran (4) yn gyffredinol, caniateir adennill ffi a osodir o dan yr adran hon yn ddiannod fel dyled sifil.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 1 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 18(3)**

**I2** A. 1 mewn grym ar 18.3.2011 gan O.S. 2011/849, ergl. 2, **Atod.**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 18/03/2011. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010, Adran 1.